




Pecyn Cymorth Tiwtoriaid Ymarfer

Tîm TAR

Ysgol Addysg, Plentyndod, Ieuenctid a Chwaraeon

Cynnwys

1. Pwrpas Pecyn Cymorth Tiwtoriad Ymarfer	4
1.1 Mae’ch rôl fel Tiwtor Ymarfer	6
1.2 Rôl y Tiwtor Ymarfer Arweiniol	8
1.3 Gweithgareddau Tiwtor Ymarfer	9
i. Arsylwad ar wers wedi’i recordio gan yr athro dan hyfforddiant	9
Ymweliad adolygu Tiwtor Ymarfer (a gynhelir yn rhithwir)	11
Cwestiynau a awgrymir ar gyfer cyfarfodydd â Myfyrwyr	12
Cyfarfod gyda’r Mentor	25
Cwestiynau a awgrymir ar gyfer cyfarfodydd hyfforddi	25
ii. Cwblhau Adroddiadau	27
Rhestrau Gwirio ar gyfer Ysgrifennu Adroddiadau Tiwtor Ymarfer	27
Defnyddio’r Fframwaith Cynnydd	30
Dyfarniadau Cynnydd	30
iii. Monitro Ansawdd Safonau	31
Elfennau Allweddol i’w Hystyried	32
Gwirio a Chymedroli Asesiad Ymarfer Dysgu	34

2. CYFATHREBU	36
i. Cyflwyniad cychwynnol i'r myfyriwr	37
ii. Cyflwyniad Cychwynnol i Gydlynnydd a Mentor Ysgol	38
iii. Cadarnhai a pharatoi ar gyfer yr ymweliad cyntaf	39
iv. Ar ôl Ymweliad 1 – Ffurflen Dilynol ac Adolygu Ymarfer	40
v. Neges Gwirio hanner ffordd drwy'r profiad	41
vi. Paratoi ar gyfer Ymweliad 2 ac Atgoffa Cymedroli	42
vii. Asesiad terfynol, monitro a diolch	43
viii (Heb fod yn gysylltiedig ag ymweliad)	44
ix. Codi pryder (i diwtor cwricwlwm)	45
x. Neges "Rhannu Adnoddau" Rhagweithiol	46
xi. Diweddariad / Cymorth Mentor	47
xii. Gwirio PDP anffurfiol	48
xiii. Dilynol – Materion Ansawdd PDP	49
xiv. Gwirio Lles	50
xv. Nodyn Atgoffa Adran A / B	51
3. Disgwyliadau Datblygu Proffesiynol	52
3.1 Tiwtor Ymarfer Archwiliad Sgiliau	52
3.2 Hyfforddiant	58

2. Pwrpas Pecyn Cymorth Tiwtoriaid Ymarfer

Mae'r Pecyn Cymorth Tiwtor Ymarfer yn bortffolio wedi'i guradu o ddeunyddiau defnyddiol a fydd yn cefnogi eich gweithgareddau fel Tiwtor Ymarfer, ac mae wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio ochr yn ochr â'r Cynllunydd Tiwtor Ymarfer a'r Mat Tiwtor Ymarfer. Mae tair prif adran: mae'r cyntaf yn darparu disgwyliadau ar gyfer gweithdrefnau, gan gynnwys yr ymweliad rhithwir ac ysgrifennu adroddiadau; mae'r ail yn darparu set parod o gyfathrebiadau y gallwch eu haddasu i weddu i'ch anghenion, a sefyllfa'ch myfyrwyr; ac mae'r adran olaf yn darparu gwybodaeth am ddisgwyliadau datblygiad proffesiynol ar gyfer y rôl.

Mae'r Canllaw Ysgol Bartner hefyd yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth i gefnogi eich rôl. Mae hyn yn darparu canllawiau cyffredinol i athrawon dan hyfforddiant, Mentoriaid, Cydlynwyr Ysgolion, Tiwtoriaid Cwricwlwm a Thiwtoriaid Ymarfer.

Bydd yr adrannau canlynol o ddiddordeb arbennig i Diwtoriaid Ymarfer:

Adran	Cynnwys	Tudalen
7	Gweledigaeth ar gyfer Athrawon Myfyrwyr	10
	Lles	11
8	Sut mae ein myfyrwyr yn dysgu	12
9	Rôl Addysgwr Athrawon yn y Bartneriaeth (gan gynnwys Tiwtor Ymarfer)	14

12	Fframwaith Cymorth i Fyfyrrwyr	20
13	Dylunio ar gyfer Dysgu	21
14	Profiad Ysgol	22
15	TAR1 Ymgysfarwyddo	26 & 27
	TAR 2 Atgyfnerthu	30 & 31
	TAR 3 Ymreolaeth	34 & 35
16	Fframwaith Cynnydd	37 - 40

ADRAN 1: GWEITHDREFNAU TIWTORIAID YMARFER

1.1 Mae'ch rôl fel Tiwtor Ymarfer

Fel **Tiwtor Ymarfer**, rydych chi'n ymarferydd profiadol, safonol, sydd wedi'i gyflogi'n uniongyrchol gan Y Brifysgol Agored. Mewn rhai ffyrdd, mae rôl y Tiwtor Ymarfer yn debyg i rôl tiwtor prifysgol ar raglen wyneb yn wyneb o ran bod y rôl hon yn cynnig cymysgedd o ddysgu drwy brofiad ac yn helpu'r myfyriwr i gysylltu theori ac ymarfer. Bydd y Tiwtor Ymarfer yn asesu myfyrwyr mewn perthynas â disgrifyddion SAC y Safonau Proffesiynol. Rydych chi'n rhan hanfodol o'r gadwyn gyfathrebu rhwng myfyrwyr, Mentoriaid a Thiwtoriaid Cwricwlwm yn y brifysgol. Gall Tiwtoriaid Ymarfer hefyd ddarparu cymorth ac ymyrraeth ychwanegol yn unol â'r Fframwaith Cymorth Myfyrwyr. Hefyd, mae Tiwtoriaid Ymarfer yn cefnogi'r broses o ddatblygu prosesau mentora effeithiol o ansawdd uchel drwy sesiynau hyfforddi â Mentoriaid yn ystod eu hymweliadau.

Mae nifer o elfennau allweddol i'r rôl, sydd wedi'u crynhoi isod:

- Mentora, hyfforddi ac arwain athrawon dan hyfforddiant i gefnogi eu cynnydd tuag at fodloni disgrifyddion SAC y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth, gan gynnwys darparu cymorth ac ymyrraeth ychwanegol lle nodir hynny
- Hyfforddi Mentoriaid mewn ysgolion a chefnogi'r broses o fentora athrawon dan hyfforddiant yn effeithiol

- Asesu'r athro dan hyfforddiant mewn perthynas â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth
- Goruchwyllo a sicrhau ansawdd y broses o asesu profiad ymarfer dysgu athrawon dan hyfforddiant
- Rhannu arferion gorau o fewn y rhwydwaith o Diwtoriaid Ymarfer, mewn ysgolion Partner a thu hwnt

Er mwyn cyflawni elfennau allweddol o'r rôl, mae nifer o gyfrifoldebau penodol y byddwch yn debygol o'u cyflawni. Bydd angen i Diwtoriaid Ymarfer wneud y canlynol:

- Arsylwi ar ymarfer athrawon dan hyfforddiant dwywaith ym Mlwyddyn 1 a dwywaith ym Mlwyddyn 2 fel rhan o'r broses o asesu cynnydd tuag at gyrraedd y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth, a rhoi adborth crynodol ar eu cynnydd.
- Adolygu cynnydd athrawon dan hyfforddiant tuag at gyrraedd y Safonau Addysgu a thystiolaeth o ymarfer dysgu mewn perthynas â SAC yn eu Portffolio Datblygiad Proffesiynol (PDP).
- Cynnal sesiynau arsylwi/darparu ymyrraeth ychwanegol os bydd angen yn unol â'r Fframwaith Cymorth Myfyrwyr.
- Rhoi adborth ffurfiannoli athrawon dan hyfforddiant sy'n eu cefnogi, yn herio ac yn arwain i fyfyrion feirniadol ar ei gynnydd fel ymarferydd.
- Llunio adroddiad ysgrifenedig ar bob athro dan hyfforddiant drwy ei PDP ddwywaith bob modiwl (blwyddyn).
- Cwrdd â Mentoriaid mewn ysgolion i ddarparu cymorth ac hyfforddi ar gyfer mentora athrawon dan hyfforddiant yn effeithiol.

- Cefnogi'r broses o sicrhau ansawdd y gwaith o asesu ymarfer dysgu drwy gymedroli dyfarniadau ym mhob rhan o'r Bartneriaeth, a chymryd rhan mewn gweithgarwch cymedroli.
- Gwneud defnydd effeithiol o adnoddau'r Bartneriaeth, gan gynnwys IRIS Connect a gwefan y Bartneriaeth, gan sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r ohebiaeth a'r wybodaeth ddiweddaraf.
- Meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth fanwl o weledigaeth Partneriaeth Y Brifysgol Agored ar gyfer dysgu athrawon dan hyfforddiant a bod yn gyfarwydd â dulliau gweithredu allweddol, ynghyd â phrosesau angenrheidiol, fel y nodir yn y Pecyn Cymorth i Diwtoriaid Ymarfer.
- Cwblhau hyfforddiant a manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol y Bartneriaeth i'ch cefnogi i gyflawni eich rôl yn effeithiol.
- Rhannu arferion gorau â'r rhwydwaith o Diwtoriaid Ymarfer, ac mewn ysgolion Partner ledled Cymru.
- Gweithio gyda'r Bartneriaeth i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn narpariaeth y rhaglen sy'n ymwneud ag ymarfer athrawon dan hyfforddiant a mentora effeithiol.

Rôl y Tiwtor Ymarfer Arweiniol

Caiff pob Tiwtor Ymarfer ei neilltuo i grŵp bach neu glwstwr o Diwtoriaid Ymarfer, dan arweiniad Tiwtor Ymarfer Arweiniol. Mae'r Tiwtor Ymarfer Arweiniol yn uwch-aelod profiadol o staff yn un o'n Hysgolion Partner Arweiniol. Mae eich Tiwtor Ymarfer Arweiniol yn gyfrifol am:

- arwain y trefniadau ar gyfer asesu ymarfer dysgu athrawon dan hyfforddiant yn ei glwstwr

- goruchwyllo a sicrhau ansawdd y broses o asesu profiad ymarfer dysgu athrawon dan hyfforddiant mewn perthynas â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth
- mewn partneriaeth ag arweinwyr academaidd Y Brifysgol Agored, arwain clwstwr o Diwtoriaid Ymarfer
- rhannu arferion gorau o fewn y rhwydwaith o Diwtoriaid Ymarfer, mewn ysgolion Partner a thu hwnt

Gallwch ddisgwyl cwrdd â'ch Tiwtor Ymarfer Arweiniol yn ein digwyddiad sefydlu ac mewn digwyddiadau datblygu proffesiynol dilynol drwy gydol y flwyddyn. Bydd hefyd yn rhoi arweiniad a chymorth i chi dros e-bost a thros y ffôn.

1.3 Gweithgareddau Tiwtor Ymarfer

Byddwch yn derbyn hysbysiad o'ch dyraniad o athrawon dan hyfforddiant drwy e-bost gan y Swyddfa TAR. Bydd yr e-bost yn cynnwys gwybodaeth gyswllt ar gyfer yr athro dan hyfforddiant, ei Gydlynnydd Ysgol a'i Diwtor Cwricwlwm i gefnogi eich cyfathrebu cychwynnol â nhw. Wrth i'r athro dan hyfforddiant symud ymlaen trwy'r rhaglen TAR, byddwch yn ymgysylltu â nhw a'r tîm o'u cwmpas yn rheolaidd trwy e-bost ac ar Teams i fonitro eu cynnydd. Mae'r disgwyliadau cyfathrebu yn cael eu cefnogi gan yr adran 'Cyfathrebu' y pecyn cymorth hwn. Bydd disgwyl i chi gynnal nifer o weithgareddau gwahanol, fel y nodir isod:

i. Arsylwad ar wers wedi'i recordio gan yr athro dan hyfforddiant

Mae arsylwi'n elfen allweddol o'r broses o ddatblygu dysgu proffesiynol a rhoi cyfleoedd i adfyfrio'n feirniadol. Gofynnir i Fentoriaid a Chydlynwyr Ysgolion gwblhau o leiaf ddau arsylwad ffurfiol ar wers yr un bob blwyddyn ar y rhaglen.

Mae'r Tiwtor Ymarfer yn cynnal dau arsylwad ar wers bob blwyddyn gan ddefnyddio IRIS Connect. Ceir canllawiau ar sut i ddefnyddio'r llwyfan hwn ar wefan y Bartneriaeth. Dylech fel arfer adolygu gwers (gan ddefnyddio IRIS Connect) y mae'r Mentor neu Gydlynnydd yr Ysgol wedi arsylwi arni yn bersonol. Nid oes gofyn i'r Tiwtor Ymarfer ddarparu adborth ysgrifenedig ar eu harsylwi o'r wers; fodd bynnag, mae llawer o Diwtoriaid Ymarfer yn dewis gwneud hyn i gefnogi datblygiad eu myfyrwyr. Bydd eich arsylwi yn llywio eich sgwrs gyda'r athro dan hyfforddiant a'u Mentor/Cydlynnydd Ysgol.

Gallwch ddewis defnyddio'r swyddogaeth deialog yn IRIS Connect i gofnodi eich adborth ar gyfer eich myfyriwr neu efallai ysgrifennu nodiadau mewn fformat i'ch dewis eich hun.

Wrth arsylwi ar wers, efallai y byddwch am ystyried y pwyntiau canlynol:

1. **Y Gymraeg, cymhwysedd digidol, ac ati:** A oes ffocws penodol i'ch arsylwad ar wers?
2. **Nodiadau arsylwad ar wers:** Efallai y byddwch am nodi digwyddiadau allweddol, amseroedd a chwestiynau sy'n codi y gallech fod am eu trafod â'r myfyriwr. Bydd hyn yn eich helpu i ddadansoddi'r wers ac i drafod ar ôl hynny.
3. **Targedau:** Pa weithgarwch pellach y gallai eich myfyriwr ei gynnal i'w alluogi i wneud cynnydd?

4. **Camau nesaf:** a allwch rannu cyngor ac arweiniad sy'n cyfeirio myfyrwyr at ddysgu pellach? Gallai hyn gynnwys ymgysylltu â theori, neu ddysgu oddi wrth athrawon eraill.

Ymweliad adolygu Tiwtor Ymarfer (a gynhelir yn rhithwir)

Mae hyn yn dilyn eich arsylwi ar addysgu'r athro dan hyfforddiant gan ddefnyddio IRIS Connect. Bydd hon yn ddelfrydol yn wers sydd hefyd wedi'i arsylwi yn bersonol gan naill ai'r Mentor neu'r Cydlynnydd Ysgol, i greu profiad a rennir i'w drafod yn ystod yr ymweliad rhithwir.

Mae sawl diben i'ch ymweliad, sef:

- cynnal deialog feirniadol â'r myfyriwr a'r Mentor a/neu Gydlynnydd yr Ysgol ar y wers yr arsylwyd arni;
- sicrhau bod y myfyriwr yn cael adborth ar ei addysgu a thargedau CAMPUS ar gyfer gwella;
- adolygu cynnydd y myfyriwr o ran ei astudiaeth a'r gweithgareddau ymarfer dysgu;
- cynnal sesiwn adfyfrio beirniadol a deialog strwythuredig gyda'r myfyriwr;
- cadarnhau (neu beidio) asesiad y Mentor o gynnydd y myfyriwr tuag at SAC;
- darparu tystiolaeth i'w chofnodi ar y ffurflen adolygu ymarfer neu'r adroddiad ymarfer dysgu;
- os angen, dechrau'r broses o ddefnyddio'r Fframwaith Cymorth Myfyrwyr;

- cwblhau a chyflwyno ffurflen monitro dysgu ymarfer ar-lein, gan gadarnhau bod gan y myfyriwr fynediad at y profiadau dysgu sydd eu hangen arno

Dylid rhoi ystyriaeth i'r holl ddibenion hyn pan gaiff yr ymweliad ei drefnu. Mae'n bosibl y gallwch gynnal y sesiynau adfyfrio beirniadol gyda'r myfyriwr a'r Mentor ynghyd â rhoi adborth a phennu targedau CAMPUS, ond ni ellir cymryd hyn yn ganiataol. Os byddwch yn gweld bod angen i chi gynnal sesiwn hyfforddi gyda'r mentor ar sgîl penodol, dylid penderfynu a yw'n briodol gwneud hyn yng nghwmni'r myfyriwr. Dylech neilltuo digon o amser i sicrhau y gallwch fynd i'r afael â'r hyn y byddwch yn ei ganfod mewn modd sensitif a phriodol.

Cwestiynau a awgrymir ar gyfer cyfarfodydd â Myfyrwyr

Dylech annog y myfyriwr i archwilio'r wers o'i safbwynt ef, yn ymateb mewn ffordd positif. Bydd yn ddefnyddiol cael cyfrif naratif o'r wers y gwnaethoch arsylwi arni, gydag amseroedd, oherwydd byddwch yn gallu adalw manylion.

Gallai'r cwestiynau cyntaf gynnwys:

- Beth oedd eich barn am y wers honno? Beth aeth yn arbennig o dda yn eich barn chi?
- A oes thema neu syniad diddorol wedi dod i'r amlwg y byddech yn hoffi eu hychwanegu neu eu hegluro?

Nesaf, bydd y ddeialog yn symud ymlaen i hunaniaeth, gwerthoedd ac egwyddorion. Gall gofyn i'r myfyriwr adolygu'r wers a nodi i ba raddau y cyrhaeddodd ei safonau ei hun ar gyfer addysgu effeithiol helpu i roi hwb i hyder, er enghraifft y ffordd y gwnaeth y wers helpu'r dysgwyr i feithrin eu dealltwriaeth.

Gall ateb cwestiynau o'r fath hefyd helpu'r myfyriwr i nodi ffyrdd, drosto ef ei hun, y gallai ei addysgu gydymffurfio'n well â'i werthoedd a'i gwyddorion.

Felly, mae'n bosibl mai'r ail gwestiwn y bydd pawb sy'n cymryd rhan yn y ddeialog yn ei ateb fydd:

- Ym mha ffyrdd y gwnaeth y wers honno alluogi'r dysgwyr i wneud cynnydd a sut digwyddodd hynny?
- Ydych chi wedi clywed rhywbeth roeddech yn anghytuno ag ef? Os felly, gwnewch yn siŵr eich bod wedi'i ddeall yn gywir. Yna dywedwch pam.

Mae trydydd cam y ddeialog strwythuredig yn dechrau archwilio'r camau nesaf ymlaen o sefyllfa'r myfyriwr ar hyn o bryd. Mae'n gofyn i'r cyfranogwyr ystyried y cymhlethdodau neu'r anawsterau y maent wedi'u hwynebu yn eu hymarfer hyd yma, a ffyrdd y byddent yn hoffi mynd i'r afael â'r rhain. Cywair y drafodaeth fydd parhau i wrando ar straeon ei gilydd, gan ystyried y camau nesaf yn hytrach na gorfodi barn.

Felly, mae'n bosibl mai'r trydydd cwestiwn y bydd pawb sy'n cymryd rhan yn y ddeialog yn ei ateb fydd:

- A oes unrhyw agweddau ar eich ymarfer sy'n anodd neu'n gymhleth i chi? Oes gennych chi unrhyw deimladau cymysg neu ydych chi'n teimlo eich bod yn cael eich tynnu i gyfeiriadau gwahanol weithiau? Beth allai helpu?

Gallech gloi'r ddeialog drwy ofyn y canlynol i'r rhai sy'n cymryd rhan:

- A yw eich barn wedi newid dros amser mewn unrhyw ffordd?

neu

- A oes rhywbeth y mae rhywun wedi'i ddweud y byddech yn hoffi ei ddeall yn well?

neu

- Ydych chi wedi clywed rhywbeth a ysgogodd feddyliau neu deimladau newydd?

Ac yn olaf

- Pa gamau nesaf fydddech chi eu cymryd?

Efallai y bydd y banc cwestiynau isod yn ddefnyddiol i chi wrth gwrdd â'ch myfyrwyr i roi tystiolaeth yn erbyn agweddau penodol ar y meysydd Safonau SAC:

Addysgeg	
Mireinio Addysgu	Ystyriwch eich cynnydd ar ddechrau'r modiwl hwn, a'ch cynnydd nawr. Ble ydych chi wedi gwneud y cynnydd mwyaf yn eich barn chi a sut wyddoch chi hynny?
	Sut fydddech chi'n disgrifio eich cydberthynas â'ch dosbarth(iadau) Cyfnod Sylfaen/CA2/CA3/CA4/y dosbarth rydych yn teimlo eich bod yn cael y llwyddiant mwyaf ag ef/y dosbarth mwyaf heriol?
	Sut ydych chi'n cynllunio ar gyfer anghenion pob dysgwr yn eich dosbarth? Beth sydd wedi gweithio orau i chi hyd yma, a pham? Beth ydych chi wedi'u nodi fel ffyrdd o wella'r agwedd hon ymhellach?
	Allwch chi fy nhywys drwy enghraifft o wers rydych wedi'i chynllunio, ei haddysgu a'i gwerthuso yn eich PDP. Pam wnaethoch chi ddewis y wers hon fel darn o dystiolaeth a beth mae hyn yn ei ddangos am eich cynnydd mewn perthynas â'r safonau?
	Sut fydddech chi'n disgrifio'r amgylchedd dysgu rydych yn ceisio ei greu yn eich dosbarthiadau? Sut ydych chi'n bwriadu cyflawni hyn ac i ba raddau ydych chi wedi cyflawni eich nodau? Pam/pam lai?
	Allwch chi ddewis un 'digwyddiad allweddol' rydych wedi cael profiad ohono mewn perthynas â rheoli ymddygiad yn eich ymarfer. Allwch chi ddisgrifio beth ddigwyddodd? Beth oeddech chi'n ei feddwl/teimlo ar y pryd? Pa gamau wnaethoch chi eu cymryd a weithiodd yn dda yn y sefyllfa honno yn eich barn chi? Pa gamau wnaethoch chi eu cymryd a allai fod wedi mynd yn wahanol yn eich barn chi? Pam wnaeth y sefyllfa godi yn eich barn chi? Beth allech chi ei wneud yn wahanol yn y dyfodol?
	Allwch chi roi enghraifft o amser pan oeddech chi'n teimlo eich bod yn defnyddio eich gofod yn yr ystafell ddosbarth neu amgylchedd dysgu yn yr awyr agored yn effeithiol ac allwch chi esbonio pa ystyriaethau y bu'n rhaid i chi eu gwneud wrth gynllunio ar gyfer y gofod hwnnw ac addysgu ynddo?
	Sut beth fyddai cwestiynu effeithiol yn eich ymarfer? Pa dystiolaeth ydych chi wedi'i defnyddio i'ch cefnogi i gwestiynu'r disgyblion yn effeithiol ar gyfer eu dysgu?
	Sut ydych chi'n asesu gwybodaeth flaenorol eich dysgwyr cyn addysgu rhywbeth sy'n newydd iddynt?

	Allwch chi roi enghraifft o dopig a addysgwyd gennych lle gwnaethoch ragweld rhai camsyniadau y gallai fod gan y dysgwyr a sut y gwnaethoch gynllunio ar gyfer hyn ymlaen llaw?
	Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i'ch helpu i asesu dealltwriaeth eich dysgwyr yn ystod gwers? Allwch chi roi enghraifft o adeg pan wnaethoch sylweddoli yn ystod y wers nad oedd nifer o ddysgwyr yn deall rhywbeth – sut oeddech chi'n gwybod hynny a beth wnaethoch chi?
	Allwch chi roi enghraifft o adeg pan wnaethoch gymryd rhan mewn gwaith ymchwil am asesiad effeithiol ar gyfer dysgu a sut mae hyn wedi llywio eich ymarfer mewn unrhyw ffordd?
	Sylwais eich bod wedi cyfeirio at y grŵp hwn o ddysgwyr fel eich dysgwyr 'gallu isel' – allwch chi adfyfrio ar y defnydd o'r term hwnnw ac ystyried beth fyddai'r gwahaniaeth pe baech yn cyfeirio at y dysgwyr gan ddefnyddio termau gwahanol, e.e. cyrhaeddiad is / bwlch dyfarnu?
	Pa gyfleoedd ydych chi wedi'u cael i gofnodi ac adrodd ar ddata cyrhaeddiad? Sut ydych chi wedi defnyddio data i lywio eich addysgu?
	Allwch chi roi enghraifft o adeg pan wnaethoch adrodd yn ôl i riant neu ofalwr ar gynnydd dysgu ei blentyn? Beth oedd eich prif ystyriaethau?
	Allwch chi roi enghraifft o adeg pan wnaethoch gynnwys rhieni/gofalwyr i gefnogi deilliant dysgu penodol?
<i>Datblygu Dysgu</i>	Sut mae eich profiad yn eich lleoliad ysgol wedi eich helpu i feithrin eich dealltwriaeth o bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru?
	Allwch chi adfyfrio ar y ffordd rydych wedi defnyddio datganiad 'Yr hyn sy'n bwysig' yn eich pwnc/mewn MDPH penodol a sut mae wedi llywio eich ymarfer?
	Allwch chi ddewis un enghraifft o wers rydych wedi'i chynnwys yn eich e-bortffolio lle rydych yn teimlo eich bod wedi defnyddio un o'r 12 o egwyddorion addysgegol sy'n ategu'r Cwricwlwm i Gymru? Allwch chi fy nhywys drwy'r ffordd y mae'r wers yn dangos egwyddor a sut roeddech yn bwriadu cyflawni hyn. Beth aeth yn dda? Beth sydd angen ei ddatblygu o hyd?

	Rhannwch enghraifft o adeg pan wnaeth astudio uned ar-lein newid dull blaenorol neu'ch proses o gynllunio gwers. Beth oedd yr uned? Sut arweiniodd hyn at newid?
	Dewiswch un darn o dystiolaeth o'ch proffil datblygu safonau. Beth mae hyn yn ei ddangos am eich ymarfer mewn perthynas â'r disgrifyddion rydych wedi'u cysylltu ag ef?
	Dywedwch wrthyf am adeg pan oeddech yn arbennig o falch o'ch dull o feithrin sgiliau'r dysgwyr yn / eich sgiliau eich hun o ran... (cymhwysedd digidol / llythrennedd / rhifedd / datblygiad y Gymraeg...)
	Beth mae defnyddio dull estynedig i ymgorffori'r pedwar diben mewn ffordd gyfannol yn ei olygu i chi? Ydych chi wedi darllen unrhyw ymchwil neu theori benodol sydd wedi eich helpu i lywio'r dull hwn?
	Allwch chi roi enghraifft o adeg pan oeddech yn teimlo bod meddu ar wybodaeth bynciol gadarn wedi effeithio ar y ffordd y gwnaethoch ddewis addysgu topig? Gallai fod yn enghraifft o adeg pan oeddech yn teimlo'n hyderus iawn, neu'n adeg pan wnaethoch nodi bod angen i chi feithrin eich gwybodaeth ymhellach.
	Sut ydych chi'n defnyddio eich gwybodaeth bynciol a'ch dealltwriaeth o addysgeg i lywio'r ffordd rydych yn cynllunio, yn addysgu ac yn asesu dysgu eich disgyblion?
	Allwch chi roi enghraifft o adeg pan wnaethoch ddefnyddio cyd-destunau bywyd go iawn i gefnogi dysgu eich disgyblion? Beth oedd effaith hyn a sut wyddoch chi?
<i>Dylanwadu ar Ddysgwyr</i>	Dywedwch wrthyf am ddsbarth/disgybl lle bu'n rhaid i chi gynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn ennyn ei ddiddordeb yn eich gwersi. Beth allai fod wedi effeithio ar ei ddiddordeb a sut aethoch chi i'r afael â hynny?
	Allwch chi roi enghraifft o adeg pan wnaethoch gynllunio ar gyfer camsyniadau dysgwyr am bwnc?
	Dangoswch enghraifft yn eich e-bortffolio o adeg pan wnaethoch gynllunio i ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu gyda dysgwyr i gefnogi eu dealltwriaeth.

	Sut rydych chi'n adfyfyrio ar eich addysgu ac ar ddysgu eich dysgwyr? Ydych chi'n defnyddio unrhyw ddulliau adfyfyrio i'ch helpu a sut ydych chi'n sicrhau eich bod yn adfyfyrio'r feirniadol?
	Disgrifiwch pa strategaethau rydych yn eu defnyddio i feithrin cydberthynas llawn ymddiriedaeth a pharch rhyngoch chi a'ch dysgwyr.
	Sut ydych chi'n pennu ac yn cynnal disgwyladau uchel ar gyfer eich disgyblion?
	Allwch chi fy nhywys drwy enghraifft o'ch PDP pan wnaethoch y canlynol (dewiswch o'r rhestr isod): rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr gymryd rhan weithredol yn eu dysgu eu hunain defnyddio sgysiau effeithiol yn yr ystafell ddosbarth i helpu'r dysgwyr i adfyfyrio ar beth a sut maent yn ei ddysgu hwyluso trafodaeth benagored a/neu gymhleth, ddadleuol neu emosiynol.
	Beth mae bod yn gydnerth yn ei olygu i'ch dysgwyr? Sut ydych chi'n cynllunio ar gyfer hyn?
	Allwch chi roi enghraifft o adeg pan wnaethoch sylweddoli yn ystod y wers nad oedd lefel yr her yn briodol ar gyfer eich dysgwyr? Sut oeddech chi'n gwybod hynny? Beth wnaethoch chi?
	Pa ddull o ddatblygu asesiad ar gyfer dysgu sydd wedi bod yn fwyaf llwyddiannus wrth addysgu hyd yma?
Cydweithredu	
	Allwch chi roi enghraifft o adeg pan wnaethoch arsylwi ar ymarfer athro arall a wnaeth newid eich ymarfer eich hun neu effeithio arno?
	Meddyliwch am adeg pan oedd agwedd ar eich ymarfer yn heriol i chi neu pan wnaethoch wynebu problem o ryw fath. Esboniwch sut aethoch chi ati i chwilio am ffyrdd o ddatblygu eich ymarfer o ganlyniad i hynny. Sut wnaethoch chi sicrhau eich bod yn defnyddio dull seiliedig ar dystiolaeth wrth wneud hyn?
	Dewiswch ddarn o dystiolaeth o'ch PDP. Sut mae hyn yn dangos eich agwedd at gydweithredu yn eich ymarfer?

	Ar gyfer myfyrwyr Cyflogedig – ydych chi wedi gwneud unrhyw newidiadau i'r ffordd rydych yn gweithio gyda staff eraill yn yr ysgol fel myfyriwr TAR? Pam?
	Ydych chi wedi cael cyfle i gyflwyno syniad, dull neu broses newydd yn eich lleoliad ysgol? NEU os gallech chi gyflwyno syniad, dull neu broses newydd i'ch lleoliad ysgol, beth fyddai hynny a pham?
	Ydych chi wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn noson rieni / cyfarfod tîm / gweithgarwch datblygu ysgol?
	Allwch chi nodi adeg pan wnaethoch gymhwyso eich dysgu am theori at eich ymarfer? Pa mor llwyddiannus oedd hyn a sut oeddech chi'n gwybod hynny?
	Ydych chi wedi gorfod ymateb i ddarn heriol o gyngor gan gydweithiwr?
	Beth yw'r enghraifft o gydweithredu rydych yn fwyaf balch ohono y tymor hwn? Gallai hyn fod yn gyfraniad at gyfarfod ysgol, gweithio gyda grŵp bach o gydweithwyr, neu weithio gydag unigolyn arall yn eich ysgol.
	Sut ydych chi wedi gweithio gyda'r staff yn eich lleoliad ysgol i feithrin eich dealltwriaeth eich hun o ddulliau'r ysgol o ddatblygu'r cwricwlwm a chyfrannu atynt?
	Y tymor hwn, byddwch chi a'ch mentor wedi cydweithio drwy gylch astudio gwersi. Beth oedd eich maes ffocws dewisol a pham? Allwch chi ddweud ychydig am y gwersi y gwnaethoch eu haddysgu gyda'ch gilydd? Pa ddulliau wnaethoch chi eu defnyddio i adfyfrio ar addysgu a dysgu a sut wnaethoch chi werthuso llwyddiant eich dulliau?
	Pa gyfleoedd datblygu proffesiynol ydych chi wedi manteisio arnynt yn ystod y modiwl hwn? Pa effaith y mae hyn wedi ei chael ar eich ymarfer?
	Yn eich barn chi, pa mor llwyddiannus ydych chi wedi ymateb i adborth gan eraill a nodi'r camau nesaf ar gyfer eich datblygiad eich hun?
	Allwch chi roi enghraifft o adeg lle mae gweithio gyda chydweithiwr arall wedi gwella eich hyder neu agwedd ar eich ymarfer?

	Wrth i chi symud ymlaen i'ch modiwl nesaf / cyfnod sefydlu, beth fydd yn newid neu'n datblygu o ran y ffordd rydych yn ceisio cymorth gan eraill, yn eich barn chi?
Dysgu Proffesiynol	
	Pa ddarn newydd o ymchwil neu theori ydych chi wedi ymgysylltu ag ef yn ddiweddar sydd wedi effeithio ar y ffordd rydych yn meddwl am fater addysgol neu agwedd ar eich ymarfer?
	Allwch chi fy nhywys drwy rywbeth rydych chi wedi ei ddysgu am ddatblygiad plentyn/person ifanc sydd wedi cael effaith sylweddol ar y ffordd y byddech yn mynd ati i addysgu topig i ddisgyblion yn eich pwnc (uwchradd) neu yn eich cyfnod (cynradd).
	Drwy gyfeirio at wers rydych chi wedi ei haddysgu sydd wedi ei chynnwys yn eich PDP, adfyfyrwch ar enghraifft o ddull asesu ffurfiannol effeithiol rydych chi wedi ei ddefnyddio.
	Ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 1 – yn eich barn chi, sut mae astudio gwersi eleni wedi eich helpu i baratoi ar gyfer eich astudiaeth lefel Meistr ar raddfa fach yn TAR3?
	Ar gyfer myfyrwyr TAR3 – allwch chi ddweud wrthyf am eich ymholiad proffesiynol?
	Pa dopig wnaethoch chi ei ddewis a pham?
	Sut wnaethoch chi gynllunio ar gyfer casglu data?
	Beth wnaethoch chi ei ddysgu am gynnydd disgyblion?
	Sut wnaeth eich ystyriaeth o ymchwil lywio eich ffordd o feddwl ynglŷn â'r astudiaeth hon?
	Gan feddwl am gyfres o wersi sydd wedi'u cynnwys yn eich PDP, allwch chi esbonio sut wnaethoch chi gynllunio ac addysgu gan ystyried cynnydd y disgyblion a sut mae hyn i'w weld yn eich cyfres o wersi?

	Dewiswch adnodd rydych wedi'i gyflwyno i'ch PDP rydych yn fwyaf balch ohono ac, os oes modd, un rydych wedi ei greu eich hun. Pam oeddech chi'n falch o'r adnodd hwn? Beth oedd y rhesymeg dros yr adnodd a pha mor effeithiol oedd ei ddefnydd? Sut wyddoch chi? Ar gyfer myfyrwyr TAR3 –Sut ydych chi a'ch mentor yn defnyddio'r PDP i bennu targedau ar gyfer datblygu / fel dull o adfyfrio ar gynnydd?
	Pa mor drefnus ydych chi wrth gasglu tystiolaeth yn erbyn y safonau? Sut ydych chi a'ch Mentor yn sicrhau eich bod yn defnyddio'r safonau proffesiynol mewn modd cyfannol ac yn osgoi dull 'blwch ticio'? Allwch chi ddangos darn o dystiolaeth o'ch PDP sydd, yn eich barn chi, yn ddull cyfannol cyfoethog o ddangos eich ymarfer? Pa feysydd o'r safonau y mae'n eu dangos a pham? Pan wnaethoch ddechrau'r TAR, oeddech chi ar y continwwm iaith Gymraeg? Sut mae eich taith bersonol o ran y Gymraeg wedi datblygu ers hynny? Pe bawn i'n siarad â disgybl yn un o'ch dosbarthiadau, beth fyddai'n ei ddweud wrthyf am eich dull o ddatblygu ei sgiliau Cymraeg yn ei wersi gyda chi? Sut ydych chi wedi defnyddio Fframwaith Asesu'r Iaith Gymraeg a pha dargedau ydych chi a'ch mentor wedi cytuno arnynt i gefnogi eich datblygiad? Pa strategaethau ydych chi'n eu defnyddio i helpu i gynllunio ar gyfer dull dwyieithog pan fyddwch yn addysgu topig newydd neu anghyfarwydd? Sut ydych chi wedi gwella eich sgiliau llythrennedd eich hun / sgiliau llythrennedd eich disgyblion yn y modiwl hwn? Sut ydych chi wedi gwella eich sgiliau rhifedd eich hun / sgiliau rhifedd eich disgyblion yn y modiwl hwn? Beth oedd eich enghraifft fwyaf arloesol o addysgu a dysgu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd digidol yn ystod y modiwl hwn?

	Beth ydych chi wedi mwynhau dysgu amdano fwyaf yn eich ysgol yn ystod y lleoliad hwn? Beth ydych chi wedi mwynhau dysgu amdano lleiaf yn eich ysgol yn y lleoliad hwn? Pam?
	I ba raddau ydych chi'n cysylltu theori ag ymarfer yn rheolaidd i'ch helpu i wneud y canlynol:
	Cynllunio gwersi
	Gwneud penderfyniad yn ystod gwers
	Adfyfrio ar wersi naill ai mewn gwerthusiadau neu wrth drafod â chydweithwyr eraill (e.e. Mentor)
	Cwblhau eich Gweithgareddau Dysgu Ymarfer neu'ch Asesiad Diwedd Modiwl
	Datrys problem neu nodi camau ar gyfer gwella
Arloesi	
	Gan gyfeirio at y gwersi yn eich PDP, allwch chi roi enghraifft o ddull creadigol roeddech yn arbennig o falch ohono?
	Sut mae eich repertoire o ddulliau addysgu wedi datblygu yn ystod y profiad ysgol hwn? Beth sydd wedi eich helpu i ddatblygu? Sut mae eich astudiaeth uned / Gweithgareddau Ymarfer Dysgu, astudiaeth o wersi neu ymholiad proffesiynol wedi eich helpu i ddatblygu hyn?
	Dywedwch wrthyf am rywbeth y gwnaethoch ei ddarllen a wnaeth eich helpu i ddeall ffordd benodol yr oedd disgybl yn ymddwyn mewn gwers yn well.
	Allwch chi roi enghraifft o adeg pan wnaethoch rannu syniad, dull addysgegol neu broses newydd â chydweithiwr arall yn eich ysgol?
	Ydych chi wedi darllen am theori neu ddarn o ymchwil y gall fod angen ei herio neu graffu arno ymhellach yn eich barn chi? Os felly, beth oedd y theori honno neu'r darn o ymchwil hwnnw a pham?

	Y eich barn chi, ble ydych chi wedi gwneud y cynnydd mwyaf yn ystod y lleoliad hwn? Sut wyddoch chi? Ym mha faes y mae angen i chi ddatblygu fwyaf? Sut wyddoch chi? Pa gynlluniau sydd gennych ar waith i ddatblygu yn y maes hwn?
	Ar gyfer myfyrwyr cyflogedig – a oes unrhyw ‘arferion’ roeddech wedi’u datblygu yn eich rôl flaenorol rydych chi wedi gweld bod angen i chi eu herio ymhellach yng ngoleuni astudiaeth uned / theori / ymchwil?
	Dewiswch un dosbarth rydych chi wedi gweithio gydag ef yn ystod y lleoliad hwn. Sut wnaethoch chi gasglu data am gynnydd y disgyblion cyn i chi ddechrau eu haddysgu / yn ystod eich gwersi / ar ôl eich gwersi a sut wnaeth hyn lywio eich addysgu?
	A fu adeg lle bu’n rhaid i chi wneud newidiadau sylweddol i’r wers roeddech wedi’i chynllunio wrth addysgu? Beth wnaethoch chi a pham?
	Sut fydddech chi’n disgrifio’r cynnydd rydych chi wedi’i wneud o ran eich gallu i ddefnyddio eich gwybodaeth a’ch dealltwriaeth o ymchwil a theori wrth addysgu disgyblion?
Arweinyddiaeth	
	Yn eich barn chi, sut fyddai eich Mentor yn disgrifio eich cydberthynas â’ch disgyblion / eich dosbarth mwyaf heriol / staff eraill?
	Beth yw ystyr cydraddoldeb i chi yn eich ymarfer? Allwch chi ddangos hyn gydag enghreifftiau?
	Sut ydych chi’n cyfrannu at feysydd o fywyd yr ysgol y tu allan i addysgu eich dosbarth(iadau)/pwnc eich hun?
	Allwch chi roi enghraifft o adeg pan oedd deall polisi ysgol yn bwysig iawn o ran arwain y ffordd y gwnaethoch ddelio â sefyllfa?
	Yn eich barn chi, pa mor barod ydych chi i addysgu’r Cwricwlwm i Gymru yn ystod y lleoliad hwn? Beth sydd wedi eich helpu i deimlo fel hyn? Beth sydd angen i chi ei wneud o hyd, yn eich barn chi?
	A oes unrhyw feysydd o bolisi ysgol y mae angen i chi feithrin eich dealltwriaeth ohonynt ymhellach, yn eich barn chi neu farn eich Mentor?

	Sut fydddech chi'n ymdrin â disgybl sydd wedi wynebu aflonyddwch neu driniaeth annheg gan ddisgyblion eraill yn eich dosbarth, e.e. os gwnaed sylw hiliol neu homoffobaidd?
	Sut beth yw bod yn arweinydd dysgu fel athro dosbarth?
	A oes gan eich ysgol foto neu weledigaeth? Sut ydych chi'n bwriadu ymgorffori hyn yn eich ymarfer neu'ch gwerthoedd enghreifftiol ar gyfer eich dysgwyr?
	Myfyrwyr rhan-amser yn eu hail ysgol – Ym mha ffyrdd y mae eich profiadau yn y ddwy ysgol yn wahanol hyd yma? Beth wnaethoch chi ei ddysgu yn Ysgol A sydd wedi eich helpu yn Ysgol B? A oes dull y gwnaethoch ei ddatblygu yn Ysgol A rydych wedi gorfod ei newid neu ei addasu nawr eich bod yn Ysgol B?
	Beth yw'r rhwystrau mwyaf i'r dysgwyr yn eich ysgol bresennol yn eich barn chi? A oes unrhyw faterion penodol y mae'r ysgol wedi eu nodi?
	Sut ydych chi'n hyrwyddo hawliau plant yn eich ymarfer? Allwch chi roi unrhyw enghreifftiau i ddangos hyn?

Cyfarfod gyda'r Mentor

Bydd defnyddio myfyrio beirniadol a deialog strwythuredig gyda'r Mentor yn dilyn patrwm tebyg i'r un a ddefnyddir gyda'r myfyriwr. Byddwch yn annog y Mentor i adrodd eu stori, yr hyn maen nhw wedi'i ddarganfod yn gweithio gyda'u myfyriwr ac unrhyw broblemau neu gymhlethdodau y maent wedi'u hwynebu. Yna, trwy archwilio gwerthoedd a chredoau am y rôl, byddwch yn helpu'r Mentor i sefydlu lle mae angen iddynt ddatblygu eu hymarfer ymhellach.

Cwestiynau a awgrymir ar gyfer cyfarfodydd hyfforddi

Isod ceir rhestr o gwestiynau a allai fod yn ddefnyddiol fel sail neu ysgogiad ar gyfer trafodaeth adfyfyriol pan fyddwch yn cwrdd â'ch mentoriaid.

Gofynnwch gwestiynau effeithiol sydd:

- yn rhoi eglurder, dealltwriaeth a phersbectif i'r Mentor(iaid);
- yn herio ffyrdd presennol o feddwl, gan ysgogi ffordd o feddwl ddyfnach neu amgen (Gallai fod yn gysylltiedig â'r cwricwlwm, dull ac ethos yr ysgol, ffordd o feddwl yr unigolyn);
- yn annog y Mentor i adolygu ei awdit sgiliau ac i adfyfyrio ar ei
- ddatblygiad proffesiynol yn y rôl;
- yn gofyn i'r Mentor(iaid) archwilio opsiynau;
- yn gofyn i'r Mentor archwilio ffeithiau, ffyrdd o feddwl a theimladau;
- yn galluogi'r Mentor i ystyried materion o safbwynt gwahanol;
- yn tynnu sylw at adnoddau perthnasol am gyfleoedd ar gyfer datblygiad personol;
- yn galluogi'r Mentor i gynllunio a gweithredu;

- yn archwilio natur ac ansawdd cymorth, heriau a chyfleoedd yn yr ysgol ac ar y rhaglen fentora.

Fel Tiwtor Ymarfer, dylech osgoi gofyn cwestiynau arweiniol a all awgrymu ateb rydych yn meddwl y dylai'r Mentor ei roi.

Gofynnwch gwestiynau agored sy'n canolbwyntio ar atebion, fel:

- Beth sy'n mynd yn dda? Pam?
- Pa gynnydd rydych wedi'i wneud? Sut wnaethoch chi hynny?
- Beth fydddech chi'n hoffi ei gyflawni drwy'r sesiwn hon?
- Beth fyddai'n ei olygu i lwyddo?
- Sut allwch chi weithio tuag at hyn?
- Pwy neu beth all eich helpu?
- Pryd yn y gorffennol ydych chi wedi cyflawni deilliant cadarnhaol? Sut wnaethoch chi hynny?
- Dywedwch wrthyf am eich profiad gyda... sut oeddech chi'n teimlo am hynny ac ati?
- Beth ydych chi wedi rhoi cynnig arno hyd yma? Sut aeth hynny?
- Oes ffordd arall o edrych ar hyn?
- Beth yw eich barn am hyn?
- Gadewch i ni ddadansoddi hyn, beth yw'r peth cyntaf y mae angen i chi ei wneud?
- Beth y gallech chi ei wneud wrth X i fynd i'r afael â hyn?
- Pa adnoddau/help sydd ei angen arnoch yn eich barn chi?
- Pryd fyddwn ni'n cwrdd nesaf?
- Beth fyddwch chi wedi'i wneud erbyn y tro nesaf y byddwn yn cwrdd?

ii. Cwblhau Adroddiadau

Bob blwyddyn, ar gyfer pob myfyriwr, byddwch yn cynnal dau ymweliad, sy'n golygu cyfanswm o PEDWAR ymweliad ar draws eu rhaglen TAR. Ar ôl pob ymweliad, bydd gofyn i chi gwblhau adroddiad sy'n darparu crynodeb o'ch cyfarfod gyda'r athro dan hyfforddiant ac asesiad o'u harfer. Dylech ddefnyddio'r Fframwaith Cynnydd i'ch cefnogi.

1. Hanner ffordd drwy bob blwyddyn, byddwch yn gwblhau **Ffurflen Adolygu Ymarfer** ar ôl eich ymweliad rhithwir. Ar y ffurflen hon, gofynnir i chi roi crynodeb o feysydd cryfder a datblygiad yr athro dan hyfforddiant mewn perthynas ag addysgeg yn unig. Yna, gofynnir i chi benderfynu a yw'r athro dan hyfforddiant ar y trywydd iawn ai peidio yn eich barn broffesiynol chi.
2. Ar ddiwedd pob blwyddyn, byddwn yn gofyn i chi gwblhau **Adran C o'r Adroddiad Dysgu Ymarfer**. Ar y ffurflen hon, gofynnir i chi roi crynodeb o feysydd cryfder a datblygiad yr athro dan hyfforddiant ym mhob maes Safonau SAC. Gofynnir i chi rhoi dyfarniad am bob un o'r meysydd hyn, a dyfarniad gyffredinol am gynnydd y myfyriwr.

Wrth gwblhau'r adroddiadau hyn, defnyddiwch y rhestrau gwirio canlynol i arwain eich gweithgaredd **cyn, yn ystod** ac **ar ôl** cwblhau:

Rhestrau Gwirio ar gyfer Ysgrifennu Adroddiadau Tiwtor Ymarfer

1. Rhestr wirio ar gyfer Tiwtoriaid Ymarfer **cyn** cwblhau'r Adolygiad Ymarfer

- Ydych chi wedi darllen arsylwad gwers y Mentor ar y PDP?

- Ydych chi wedi darllen ffurflen Adolygiad Ymarfer y Mentor ar y PDP?
- Ydych chi wedi darllen arsylwad gwers y Cydlynnydd Ysgol ar y PDP?
- Ydych chi wedi gwylio recordiad IRIS eich myfyriwr drwy'r Llwybr (nid e-bost) ac wedi gwerthuso'r cynllun gwers a'r adnoddau cysylltiedig ar y PDP?
- Ydych chi wedi cymryd rhan mewn trafodaeth broffesiynol am y recordiad IRIS a'r adnoddau gyda'r myfyriwr?
- Ydych chi wedi cwrdd â'r myfyriwr 1 i 1 fel y gallant fynegi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt heb i'w cydweithwyr yn yr ysgol fod yn bresennol?
- Ydych chi wedi cael cyfarfod â'r myfyriwr, y Mentor a Chydlynnydd Ysgol gyda'i gilydd ar Teams (a elwir yn 'ymweliad rhithwir') i drafod cynnydd cyffredinol?
- Ydych chi i gyd (myfyriwr, Mentor, Cydlynnydd Ysgol, Tiwtor Ymarfer) yn cytuno dyfarniad yr Adolygiad Ymarfer (Yn Rhagori ar Ddisgwyliadau / Ar y trywydd iawn gyda chryfderau / Ar y trywydd iawn / Heb fod ar y trywydd iawn eto)?
- Ydych chi wedi nodi unrhyw ddyfarniadau 'Heb eu Bod ar y Trywydd iawn' gyda'r Tiwtor Cwricwlwm fel mater o frys?
- Ydych chi wedi cwblhau'r [ffurflen fonitro gwarantu safonau](#) sy'n dilyn yr 'ymweliad rhithwir'?

2. Rhestr wirio ar gyfer Tiwtoriaid Ymarfer **wrth** ysgrifennu'r Ffurflen Adolygu

Ymarfer:

- Mae'r adroddiad yn bersonol – i'r athro dan hyfforddiant ac i'r dosbarth.
- Mae'r adroddiad yn cynnwys enghreifftiau i gefnogi'r sylwadau a wnaed.
- Mae'r enghreifftiau a ddarperir yn yr adroddiad yn cefnogi'r dyfarniad.
- Mae cyfeiriad clir at y safonau proffesiynol.
- Mae tystiolaeth glir bod deialog broffesiynol wedi digwydd.
- Mae'r adroddiad yn cynnwys ymdeimlad o gynnydd dros amser (nid yn seiliedig ar y wers a arsylwyd trwy IRIS Connect yn unig).
- Mae targedau cyraeddadwy wedi'u cynnwys yn yr adroddiad sy'n cefnogi cynnydd.

3. Rhestr wirio ar gyfer Tiwtoriaid Ymarfer **ar ôl** ysgrifennu'r Ffurflen Adolygu

Ymarfer

- Ydych chi wedi prawf-ddarllen y ffurflen a 'rhyddhau' sylwadau, fel eu bod nhw'n weladwy i bawb?
- Ydych chi wedi gwahodd y myfyriwr, y Mentor, a Chydlynnydd Ysgol i ddarllen, gwirio a chadarnhau eu bod nhw'n hapus gyda'r adroddiad?
- Ydych chi wedi cadarnhau diwedd y broses gyda'ch Tiwtor Ymarfer Arweiniol?

Defnyddio'r Fframwaith Cynnydd

Yn eich adroddiadau, gofynnir i chi asesu cynnydd athro dan hyfforddiant. Er mwyn cefnogi eich barn, cyfeiriwch at y Fframwaith Cynnydd i'ch helpu i wneud dyfarniad 'addas orau' ar y cam hwn o ddatblygiad yr athro dan hyfforddiant.

Dyfarniadau Cynnydd

Heb Fod ar y Trywydd lawn*	Nid yw'r athro dan hyfforddiant yn dangos deilliannau'r fframwaith ar gyfer ei gam yn gyson. Efallai nad yw ymarfer wedi'i ddatblygu'n ddigonol neu nad oes digon o dystiolaeth ar ei gyfer, gyda meysydd yn dangos effaith gyfyngedig or gynnydd dysgwyr. Ar gyfer TAR2 neu TAR3 – Nid ydynt yn cael ei hargymell ar gyfer parhau ar y cam hwn. <i>*Yn TAR1, mae hyn yn ddangosydd ffurfiannol o'r angen posibl i ymyrryd yn gynnar. Yn TAR 2 a TAR3, mae'n grynodol ac yn dangos and yw meini prawf cynnydd wedi'u bodloni.</i>
Ar y Trywydd lawn	Mae'r athro dan hyfforddiant yn datblygu ymarfer sicr ar gyfer y rhan fwyaf o ddeilliannau cam-benodol, gyda rhai

	meysydd yn gofyn am gymorth wedi'i dargedu.
Ar y Trywydd lawn gyda Chryfderau	Mae'r athro dan hyfforddiant yn dangos y rhan fwyaf o ddeilliannau cam-benodol gyda sawl cryfder yn dod i'r amlwg a chysondeb cynyddol mewn ymarfer.
Yn Rhagorol ar Ddisgwyliadau	Mae'r athro dan hyfforddiant yn dangos yn gyson y rhan fwyaf o'r deilliannau ar gyfer ei gam presennol, gydag effaith amlwg ar ddysgwyr.

iii. Monitro Gwarantu Safonau

Fel Tiwtor Ymarfer, cewch gyfle i ymgysylltu â sawl athro dan hyfforddiant mewn gwahanol leoliadau ysgol ledled Cymru. Mae hyn yn eich rhoi mewn sefyllfa ddefnyddiol iawn i fonitro'r ddarpariaeth ar gyfer addysg gychwynnol athrawon ar draws y Bartneriaeth. Un o'ch gweithgareddau ar ôl pob ymweliad rhithwir yw cwblhau ffurflen monitro Gwarantu Safonau (GS) sy'n gofyn i chi fyfyrrio ar y gefnogaeth a gynigir i bob un o'ch athrawon dan hyfforddiant.

Bydd angen gofyn nifer o gwestiynau o fewn y ffurflen monitro GS i staff ysgol a/neu'r athro dan hyfforddiant yn ystod eich cyfarfod/au gyda nhw. Gellir ymateb i gwestiynau eraill trwy bori PDP yr athro dan hyfforddiant, gan gynnwys yr adolygiadau a gwblhawyd gan y Mentor a'r Cydlynnydd Ysgol.

Mae'r cwestiynau a ofynnir yn y ffurflen monitro GS (ffurflen MS) isod. Efallai y bydd yn ddefnyddiol cynllunio ymlaen llaw ar gyfer yr ymweliad rhithwir trwy weithio allan pa gwestiynau y byddwch chi'n eu gofyn i ba unigolyn.

Elfennau Allweddol i'w Hystyried

1. Mae'r athro dan hyfforddiant wedi dangos lefel broffesiynol o gyfathrebu â staff yr ysgol a thiwtor ymarfer.

Yn ei le | Ar waith | Nid yw o dan sylw eto

Os nad yw ar waith, ychwanegwch sylwadau:

2. Mae'r athro dan hyfforddiant yn cael cyfarfod ar yr amserlen gyda'i Fentor pwnc/cyfnod yn wythnosol (cyflogedig) neu bob 5 diwrnod (rhan amser). Mae hyn yn cael ei gynnal yn dda.

Yn ei le | Ar waith | Nid yw o dan sylw eto

Os nad yw ar waith, ychwanegwch sylwadau:

3. Mae'r gofynion y rhaglen ar waith i staff yr ysgol i arsylwi ar addysgu'r athro dan hyfforddiant a darparu adborth datblygiadol yn unol â gofynion y rhaglen.

Yn ei le | Ar waith | Nid yw o dan sylw eto

Os nad yw ar waith, ychwanegwch sylwadau:

4. Mae gan yr athro dan hyfforddiant amserlen o gyfleoedd datblygiad proffesiynol, gan dynnu ar y rhaglen Gweithgareddau Ymarfer Dysgu ac Astudio Gwers i sgaffaldio eu profiad.

Yn ei le | Ar waith | Nid yw o dan sylw eto

Os nad yw ar waith, ychwanegwch sylwadau:

5. Mae gan yr athro dan hyfforddiant gyfleoedd i arsylwi athrawon eraill yn addysgu ac yn rhagweithiol wrth drefnu hyn.
Yn ei le | Ar waith | Nid yw o dan sylw eto

Os nad yw ar waith, ychwanegwch sylwadau:

6. Mae deialog rhwng yr athro dan hyfforddiant a Mentor neu Gydlynnydd Ysgol ar ofynion SAC a sut i ddarparu tystiolaeth yn erbyn y safonau SAC
Yn ei le | Ar waith | Nid yw o dan sylw eto

Os nad yw ar waith, ychwanegwch sylwadau:

7. Mae'r athro dan hyfforddiant yn dangos dealltwriaeth ac yn cofnodi tystiolaeth o gwrdd â SAC ac mae'n cadw ffeil addysgu briodol ac yn cadw ei PDP yn gyfredol.
Yn ei le | Ar waith | Nid yw o dan sylw eto

Os nad yw ar waith, ychwanegwch sylwadau:

8. Mae gan yr athro dan hyfforddiant y lefel ofynnol o amser astudio ar-lein gwarchodedig ac amser ymarfer dysgu pwrpasol.
Yn ei le | Ar waith | Nid yw o dan sylw eto

Os nad yw ar waith, ychwanegwch sylwadau:

9. Mae'r athro dan hyfforddiant yn deall y mecanweithiau rhaglen sydd ar waith i gefnogi lles.
Yn ei le | Ar waith | Nid yw o dan sylw eto

Os nad yw ar waith, ychwanegwch sylwadau:

10. Mae'r Mentor Pwnc/Cyfnod yn darparu mentora a hyfforddi effeithiol o ddydd i ddydd sy'n cefnogi'r athro dan hyfforddiant.

Yn ei le | Ar waith | Nid yw o dan sylw eto

Os nad yw ar waith, ychwanegwch sylwadau:

11. Mae'r Mentor Pwnc/Cyfnod a Chydlynnydd Ysgol wedi cyrchu deunyddiau anwytho a hyfforddi.

Yn ei le | Ar waith | Nid yw o dan sylw eto

Os nad yw ar waith, ychwanegwch sylwadau:

12. Mae'r Cydlynnydd Ysgol wedi ymgymryd â gweithgareddau sicrhau ansawdd gyda'r Mentor (iaid) yn yr ysgol.

Yn ei le | Ar waith | Nid yw o dan sylw eto

Os nad yw ar waith, ychwanegwch sylwadau:

Gwirio a Chymedroli Asesiad Ymarfer Dysgu

13. Nodwch a ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r dyfarniadau wedi eu gwneud gan y Mentor a'r Cydlynnydd Ysgol.

Cytuno / Anghytuno

14. Amlinellwch unrhyw drafodaeth gymedroli wedi cael ei gwneud gyda'r Chydlynnydd Ysgol ag unrhyw canlyniadau wedi eu cytuno:

15. Nodwch pa un, yn eich barn chi, sy'n disgrifio cywirdeb yr asesiad dysgu ymarfer a wnaed gan yr ysgol orau:

Hael lawn / Hael / Boddhaol / Difrifol / Difrifol lawn / Anghyson

16. Rhowch sylwadau ar ansawdd yr adborth a roddwyd i'r athro dan hyfforddiant:

17. DEWISOL – Defnyddiwch y bocs isod i ddarparu unrhyw sylwadau perthnasol eraill

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y ffurflenni monitro GS yn amhrisiadwy i'r Bartneriaeth gan ei bod yn darparu manylion am y meysydd cryfder a'r meysydd i'w datblygu ymhellach ar gyfer ysgolion partner unigol yn ogystal ag ar draws y Bartneriaeth.

ADRAN DAU: CYFATHREBU

Mae'r adran yma yn gwneud eich rôl fel Tiwtor Ymarfer ychydig yn haws ac effeithiol. Mae'n cynnig negeseuon e-bost parod i'w defnyddio ac awgrymiadau syml ar gyfer cyfathrebu ysgafn gydag athrawon dan hyfforddiant, Mentoriaid a Chydlynwyr Ysgolion. Mae'r negeseuon hyn yn helpu i gadw myfyrwyr ar y trywydd iawn, dathlu eu cynnydd, a dangos i staff yr ysgol bod eu cefnogaeth yn bwysig – i gyd heb ychwanegu llwyth gwaith ychwanegol. Meddyliwch amdano fel pecyn cymorth cyflym, cyfeillgar i gryfhau perthnasoedd a helpu i wneud pob lleoliad yn brofiad cadarnhaol i bawb sy'n cymryd rhan. **Ni ragwelir y bydd angen defnyddio'r holl negeseuon e-bost trwy'r amser:** maent yn cael eu darparu fel cefnogaeth. Mae croeso i chi **addasu**'r negeseuon e-bost mewn ffyrdd sy'n addas i'ch anghenion.

Awgrymiadau Gorau i Arbed Amser

Defnyddio offeryn amserlenni: cynnig opsiynau a gadael i gyfranogwyr ddewis yr amser gorau

Trefnwch e-byst awtomatig: drafftioch a gosodwch e-byst i'w hanfon ar yr adeg iawn.

Gosodwch atgofion calendr: blociwch amser ar gyfer tasgau allweddol a derbyniwch awgrymiadau awtomataidd

Defnyddiwch y Cynllunydd Tiwtor Ymarfer: cadwch nodiadau a rhestrau gwirio ar gyfer ymweliadau ac e-byst

i. Cyflwyniad cychwynnol i'r myfyriwr

Pwnc: Croeso gan eich Tiwtor Ymarfer

Annwyl [Enw Myfyriwr], [Enw Cyswllt Cydlynnydd Ysgol] a [Enw Cyswllt Mentor],

Gobeithio bod popeth yn iawn gyda chi.

Fy enw i yw [Eich Enw], a byddaf yn eich Tiwtor Ymarfer eleni. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda chi a chefnogi datblygiad [Enw Myfyriwr] fel athro/awes.

Er mwyn i ni ddechrau, byddai'n wych trefnu galwad fer Teams i gyflwyno ein hunain a chytuno ar y ffocws ar gyfer yr ymweliad rhithwir cyntaf, neu i ddod i adnabod ein gilydd ychydig yn well dros e-bost. Yn ystod yr alwad, gallwn hefyd gadarnhau sut y byddwn yn defnyddio eich ffolder addysgu, y PLP, IRIS Connect a phryd y gallaf ddisgwyl derbyn cynllun gwersi a gwerthusiad (fformat Prifysgol Agored) cyn dderbyn eich pennod addysgu wedi'i ffilmio.

Allech chi rannu eich argaeledd ar gyfer cyfarfod byr yn yr wythnos nesaf?

Yn y cyfamser, os oes angen unrhyw ddogfennaeth arnoch, edrychwch ar y wefan [Adnoddau ac hyfforddiant ysgolion partner | Open University in Wales](#)

Cofion cynnes

[Eich Enw]

Tiwtor Ymarfer Prifysgol Agored yng Nghymru

ii. Cyflwyniad Cychwynnol i Gydlynnydd a Mentor Ysgol

Pwnc: Croeso a Chyflwyniad – Cymorth i Diwtoriaid Ymarfer

Annwyl [enwau mentor a chydlynnydd ysgol],

Gobeithio bod popeth yn iawn gyda chi.

Fy enw i yw [Eich Enw], a fi fydd y Tiwtor Ymarfer (PT) sy'n cefnogi [Enw Myfyriwr] yn ystod eu lleoliad yn [Enw'r Ysgol].

Fy rôl yw gweithio ochr yn ochr â'r myfyriwr a'ch ysgol i sicrhau profiad dysgu o ansawdd uchel. Mae hyn yn cynnwys gwirio cynnydd, darparu arweiniad lle bo angen, a helpu i gynnal dealltwriaeth a rennir o nodau datblygu.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cwblhau'r sesiwn hyfforddi Cydlynnydd Ysgol/Mentor yn fyw neu asynronig a'r ffurflenni adborth sydd ar gael yn [Adnoddau ac hyfforddiant ysgolion partner | Open University in Wales](#).

Os oes unrhyw gwestiynau, cysylltwch â mi neu fynychwch y sesiwn galw heibio mentor bob dydd Llun am 3.30yp drwy'r ddolen ailadroddus ar wefan y bartneriaeth.

Edrychaf ymlaen yn fawr at weithio gyda chi a chefnogi [Enw Myfyriwr] a'ch tîm trwy gydol y lleoliad hwn. Peidiwch ag oedi cyn cysylltu os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drafod unrhyw beth cyn fy ymweliad rhithwir cyntaf.

Cofion gorau,

[Eich Enw]

Tiwtor Ymarfer

iii. Cadarnhai a pharatoi ar gyfer yr ymweliad cyntaf

Pwnc: Paratoi ar gyfer ein hymweliad rhithwir cyntaf

Annwyl [Enw Myfyriwr] [Enw Cydlynnydd Ysgol] a [Enw Mentor],

Diolch am eich croeso cynnes. Rwy'n edrych ymlaen at ein hymweliad rhithwir cyntaf ar [mewnysod dyddiad/amser].

Er mwyn ein helpu i wneud y gorau o'n hamser, gwnewch yn siŵr bod y canlynol ar waith:

- Mae eich ffolder addysgu yn gyfredol
- Mae eich recordiad IRIS Connect wedi'i uwchlwytho a'i rhannu gyda fi
- Mae cynllun gwers a ffurflen werthuso (fformat y Brifysgol Agored) wedi'i gwblhau yn cael eu rhannu ymlaen llaw
- Rydych chi wedi diweddarw'ch traciwr targed PDP gyda'ch targedau diweddaraf

Yn ystod yr ymweliad, byddwn yn trafod eich cynnydd a'ch camau nesaf gyda chi, eich mentor a/neu eich Cydlynnydd Ysgol.

Yn y cyfamser, os oes angen unrhyw gymorth arnoch gan ddefnyddio IRIS Connect, cyfeiriwch at y mat IRIS Connect sydd ar gael ar wefan [Adnoddau ac hyfforddiant ysgolion partner | Open University in Wales](#).

Welwn ni chi yn fuan,

[Eich Enw]

iv. Ar ôl Ymweliad 1 – Ffurflen Dilynol ac Adolygu Ymarfer

Pwnc: Diolch a'r Camau Nesaf

Annwyl [Enw Myfyriwr], [Enw Cydlynnydd Ysgol] a [Enw Mentor],

Diolch am ymweliad cyntaf defnyddiol – roedd yn wych gweld eich cynnydd ar waith.

Rwyf bellach wedi cwblhau'r **Ffurflen Adolygu Ymarfer** trwy eich PDP, a byddwn yn eich annog i ailymweld â'r traciwr targed i ddiweddaru unrhyw nodau newydd a drafodwyd gennym.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu angen cymorth rhwng nawr a'n hail ymweliad, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â fi. Cofiwch fod yr holl ddyddiadau allweddol a dogfennau ategol ar gael ar y wefan [Adnoddau ac hyfforddiant ysgolion partner | Open University in Wales](#).

Dymuniadau gorau,

[Eich Enw]

v. Neges Gwirio hanner ffordd drwy'r profiad

Pwnc: Gwirio hanner ffordd drwy'r profiad

Annwyl [Enw Myfyriwr], [Enw Cydlynnydd Ysgol] a [Enw Mentor],

Gobeithio eich bod chi'n iawn. Roeddwn i eisiau cysylltu â chi nawr eich bod chi wedi cyrraedd hanner ffordd drwy eich lleoliad yn [Enw'r Ysgol].

Cofiwch ddiweddarau eich Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) a'ch traciwr targed os nad ydych eisoed wedi gwneud hynny – mae hyn yn ein helpu ni i gyd i gadw eich cynnydd a'ch camau nesaf mewn golwg. Os oes unrhyw heriau, waeth pa mor fach, mae nawr yn amser gwych i'w nodi fel y gallwn fynd i'r afael â nhw gyda'n gilydd.

Daliwch ati â'r gwaith ardderchog – rydych chi'n gwneud cynnydd gwych!

Dymuniadau gorau,

[Eich Enw]

Tiwtor Ymarfer

vi. Paratoi ar gyfer Ymweliad 2 ac Atgoffa Cymedroli

Pwnc: Cynllunio ymlaen llaw ar gyfer Ymweliad 2

Annwyl [Enw Myfyriwr], [Enw Cydlynnydd Ysgol] a [Enw Mentor],

Rwy'n gobeithio bod popeth yn iawn gyda chi.

Rydw i yn y broses o gynllunio ein hail ymweliad rhithwir. Allwch chi gadarnhau eich argaeledd yn ystod wythnos [mewnosod dyddiad]? Fel o'r blaen, bydd angen i mi fynediad at:

- Eich ffolder addysgu
- Eich recordiad IRIS Connect
- Eich cynllun gwers a'ch gwerthusiad
- Eich PLP wedi'i ddiweddaru, gan gynnwys y traciwr targed

Os yw fy asesiad yn ystod yr ymweliad yn wahanol i'r Mentor neu'r Cydlynnydd Ysgol, efallai y byddaf yn gofyn am alwad gymedroli fer i sicrhau ein bod ni i gyd yn cyd-fynd gyda ein dyfarniadau. Cofiwch fod yr holl asesiadau ymarfer dysgu (gan gynnwys yr asesiad gan eich ysgol) yn destun cymedroldeb hyd nes ei gadarnhau trwy eich Asesiad Diwedd Modiwl terfynol.

Diolch eto am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus.

Cofion caredig,

[Eich Enw]

vii. Asesiad terfynol, monitro a diolch

vii A. I'R ATHRO/AWES DAN HYFFORDDIANT:

Pwnc: Ymweliad 2: Crynodeb a Chantau Terfynol

Annwyl [Enw'r Myfyriwr],

Diolch am yr ail ymweliad, sydd wedi bod yn feddylgar a myfyriol.

Rwyf bellach wedi cwblhau Adran C o'r Adroddiad Ymarfer Dysgu. Lle bo hynny'n briodol, rwyf hefyd wedi cael sgysiau gyda'r Mentor a'r Cydlynnydd Ysgol er mwyn i mi allu llenwi'r Ffurflen Monitro Dysgu Ymarfer. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau ansawdd cyson ar draws y bartneriaeth.

Os hoffech unrhyw adborth neu os oes gennych gwestiynau am eich datblygiad, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Gyda dymuniadau gorau,

[Eich Enw]

Vii B. I'R MENTOR A'R CYDLYNYDD YSGOL:

E-bost Diolch i'r Ysgol ar ôl yr Ymweliad Terfynol

Pwnc: Diolch – [Enw'r Myfyriwr] Lleoliad

Annwyl [Enw'r Mentor / Cydlynnydd Ysgol],

Diolch yn fawr am eich amser a'ch cefnogaeth yn ystod lleoliad [Enw Myfyriwr] yn [Enw'r Ysgol]. Mae eich arweiniad wedi bod yn amhrisiadwy, ac rwy'n gwerthfawrogi'r bartneriaeth a'r ymrwymiad y mae eich tîm wedi'i ddangos.

Mae wedi bod yn bleser gweithio gyda chi, ac edrychaf ymlaen at barhau â'n cydweithrediad mewn lleoliadau yn y dyfodol.

Gyda'r cofion gorau,

[Eich Enw]

Tiwtor Ymarfer

viii (Heb fod yn gysylltiedig ag ymweliad)

Pwnc: Daliwch ati i'r gwaith gwyh!

Annwyl [Enw'r Myfyriwr],

Roeddwn i eisiau cymryd eiliad i gydnabod yr ymdrech a'r cynnydd rydych chi wedi bod yn ei wneud yn eich lleoliad. Rwy'n gwybod y gall dysgu o bell fod yn heriol ar adegau, ond mae eich ymrwymiad yn amlwg ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Daliwch ati – rydych chi'n meithrin sgiliau a phrofiad a fydd yn talu ar ei ganfed yn eich taith addysgu!

Cofion cynnes,

[Eich Enw]

Tiwtor Ymarfer

ix. Codi pryder (i diwtor cwricwlwm)

Pwnc: Pryder ynglŷn â chynnydd myfyrwyr – [Enw'r Myfyriwr]

Annwyl [Enw'r Tiwtor Cwricwlwm],

Rwy'n ysgrifennu i godi pryder ynghylch cynnydd [Enw Myfyriwr] yn ystod eu lleoliad ymarfer dysgu. Yn seiliedig ar arsylwadau diweddar a thystiolaeth PDP, credaf efallai na fydd y myfyriwr ar y trywydd iawn i gyrraedd y cerrig milltir disgwyliedig ar hyn o bryd.

Byddwn yn croesawu eich cyngor ynghylch a allai ymarfer dysgu ychwanegol neu ymweliadau pellach fod yn briodol. Rhowch wybod i mi amser da i drafod.

Cofion caredig,

[Eich Enw]

Tiwtor Ymarfer

x. Neges "Rhannu Adnoddau" Rhagweithiol

Pwnc: Adnodd defnyddiol ar gyfer [enw]

Annwyl [Enw'r Myfyriwr] / [Enw'r Mentor],

Deuthum ar draws y [adnodd PA / tiwtorial IRIS Connect / awgrymiad PDP] hwn a meddwl y gallai fod yn ddefnyddiol ar gyfer cefnogi [datblygiad [Enw Myfyriwr] mewn [maes penodol].

[Mewnosod dolen fer neu gyfarwyddiadau]

Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn helpu – rydw i bob amser yn hapus i rannu offer neu awgrymiadau a allai gefnogi eich taith addysgu a dysgu.

Dymuniadau gorau,

[Eich Enw]

Tiwtor Ymarfer

xi. Diweddariad / Cymorth Mentor

Pwnc: Diweddariad Tymor y Brifysgol Agored

Annwyl [Enw'r Mentor],

Gobeithio eich bod chi'n iawn. Dyma ddiweddariad byr ar rai mentrau allweddol y Brifysgol Agored a chyfleoedd dysgu proffesiynol y tymor hwn:

- [Mewnysod diweddariadau PA perthnasol, e.e., sesiynau galw heibio, gweithdai, tiwtorialau]
- [Unrhyw adnoddau neu ganllawiau newydd sy'n berthnasol i fentoriaid]

A allaf hefyd gynnig atgoffa ysgafn y bydd angen i chi gwblhau dwy arsylwi gwers ffurfiol eich athro myfyriol, cwblhau Ffurflen Adolygu Ymarfer ac yn olaf Adran A o'r Adroddiad Ymarfer Dysgu. Gellir dod o hyd i ddyddiadau allweddol i gyd ar wefan y bartneriaeth, yn ogystal â'ch Cynllunydd Mentor y dylech fod wedi'u derbyn trwy e-bost.

Wrth i chi gwblhau eich hyfforddiant OpenLearn 'Meddylfryd Mentora', os oes unrhyw gwestiynau sydd gennych, cysylltwch â mi neu fynychwch y sesiwn galw heibio mentor ar ddydd Llun am 3.30pm drwy'r ddolen ailadroddus ar y wefan [Adnoddau ac hyfforddiant ysgolion partner | Open University in Wales](#).

Diolch am eich cefnogaeth barhaus i'n myfyrwyr – mae eich cyfraniad yn gwneud gwahaniaeth i'w profiad dysgu proffesiynol.

Cofion cynnes,

[Eich Enw]

Tiwtor Ymarfer

xii. Gwirio PDP anffurfiol

Pwnc: Adolygiad o'ch pasbort dysgu proffesiynol

Annwyl **[Enw'r Myfyriwr]**,

Gobeithio eich bod chi'n cadw'n iawn. Rwyf wedi adolygu eich Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) ac eisiau rhoi rhywfaint o adborth. Ar hyn o bryd, mae yna rai meysydd sydd angen sylw cyn y gallwn olrhain eich cynnydd yn llawn:

- Mae tystiolaeth allweddol ar goll mewn sawl adran.
- Nid yw'r **Traciwr Targed** a'r **Cofnod Dysgu Ymarfer** wedi'u cwblhau eto.

Mae cwblhau'r adrannau hyn yn hanfodol er mwyn adlewyrchu eich dysgu yn gywir a bodloni gofynion eich lleoliad. Rwy'n eich annog i ddiweddaru'r rhain cyn gynted â phosibl fel y gallwn sicrhau bod eich cynnydd yn cael ei ddogfennu'n llawn a'i gefnogi.

Anelwch at wneud y diweddariadau erbyn **[dyddiad penodol]**, a rhowch wybod i mi os oes angen unrhyw arweiniad neu adnoddau arnoch i'w cwblhau.

Rwy'n hyderus y gallwch chi gael hyn wedi'i gwblhau ac edrychaf ymlaen at weld eich PDP yn barod am sylw.

Cofion gorau,

[Eich Enw]

Tiwtor Ymarfer

xiii. Dilynol – Materion Ansawdd PDP

Pwnc: Pwysig: Cwblhau eich Pasbort Dysgu Proffesiynol

Annwyl [Enw'r Myfyriwr],

Rwy'n dilyn fy e-bost blaenorol am eich Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP). Nid wyf wedi gweld y diweddariadau gofynnol eto, gan gynnwys y dystiolaeth goll, Traciwr Targedau, a Cyfnod Ymarfer Dysgu.

Mae'n hanfodol bod yr adrannau hyn yn cael eu cwblhau'n brydlon, gan eu bod yn rhan allweddol o'ch asesiad lleoliad ac yn caniatáu inni olrhain eich cynnydd yn gywir. Gwnewch yn siŵr bod eich PDP wedi'i ddiweddaru'n llawn **erbyn [dyddiad penodol]**.

Os oes unrhyw heriau sy'n eich atal rhag cwblhau'r adrannau hyn, mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i mi neu'ch Tiwtor Cwricwlwm fel y gallwn drafod sut i fynd i'r afael â nhw. Gallai methu â diweddaru eich PDP effeithio ar asesiad eich lleoliad.

Diolch am roi sylw i hyn ar unwaith. Rydw i yma i'ch cefnogi os oes angen, felly cysylltwch â mi heb oedi.

Cofion gorau,

[Eich Enw]

Tiwtor Ymarfer

xiv. Gwirio Lles

Pwnc: Gwirio Lles

Annwyl [Enw'r Myfyriwr],

Roeddwn i eisiau gwirio gyda chi ar ôl ein cyfarfod diwethaf. Sylwais eich bod chi'n ymddangos ychydig i lawr / dan bwysau / pryderus / llethu, ac roeddwn i eisiau rhoi gwybod i chi fy mod yma os hoffech chi drafod pethau drwodd. Gall lleoliad ac astudio weithiau deimlo'n llethol iawn, felly mae'n bwysig gofalu am eich lles ochr yn ochr â'ch dysgu proffesiynol.

Mae gan y Brifysgol Agored ystod o wasanaethau cymorth y gallwch eu cyrchu os ydych yn teimlo bod eu hangen arnoch, gan gynnwys cysylltu â'ch Tiwtor Cwricwlwm am gyngor ac arweiniad a chael mynediad at Gymorth Lles y Brifysgol Agored y Brifysgol Agored: [Mental health, wellbeing and keeping safe | Help Centre | The Open University](#)

Cofiwch nad ydych ar eich pen eich hun: mae llawer o gefnogaeth ar gael a gofyn am gymorth yn gynnar wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Cymerwch ofal a gadewch mewn cysylltiad.

Cofion cynnes,

[Eich Enw]

Tiwtor Ymarfer

xv. Nodyn Atgoffa Adran A / B

Pwnc: Nodyn Atgoffa: Cwblhau Adran C

Annwyl [Enw'r Mentor / Cydlynnydd Ysgol],

Gobeithio bod popeth yn iawn gyda chi. Roeddwn i eisiau dilyn i fyny ynghylch Adran C o'r adroddiad Ymarfer Dysgu ar gyfer lleoliad [Enw Myfyriwr]. Rydw i wedi sylwi bod rhai mewnbwn o'ch ochr yn dal heb eu hystyried, sy'n golygu nad wyf yn gallu cwblhau fy asesiad Tiwtor Ymarfer eto.

Rwy'n deall yn llwyr pa mor brysur y gall pethau fod, ac rwy'n gwerthfawrogi'r holl amser a chefnogaeth rydych chi'n ei roi i'n myfyrwyr. Pe gallech gwblhau eich adran erbyn [dyddiad penodol], byddai'n helpu i sicrhau ein bod yn aros ar y trywydd iawn a bod cynnydd [Enw Myfyriwr] yn cael ei gofnodi'n gywir.

Rhowch wybod i mi os oes unrhyw beth y gallaf ei wneud i'ch cefnogi i gwblhau hyn. Diolch eto am eich partneriaeth a'ch ymrwymiad.

Cofion gorau

[Eich Enw]

Tiwtor Ymarfer

Practice Tutor

3: Disgwyliadau Datblygu Proffesiynol

3.1 Tiwtor Ymarfer Archwiliad Sgiliau

Yn seiliedig yn rhannol ar y meini prawf ar gyfer ‘Y mentoriaid mwyaf effeithiol’ yn ‘Y continwwm dysgu proffesiynol: mentora mewn hyfforddiant cychwynnol i athrawon’ (Estyn, 2018).

Sgîl	Coch			Oren			Gwyrdd			Anghenion hyfforddiant a nodwyd	Adnoddau hyfforddiant i'w defnyddio
	1	2	3	1	2	3	1	2	3		
Rwy'n ymarferydd cryf											
Rwy'n deall addysgeg addysg athrawon.											
Mae gennyf ddealltwriaeth dda o egwyddorion coetsio a mentora.											
Gallaf gefnogi a herio eraill wrth wella eu hymarfer proffesiynol.											

Rwy'n defnyddio'r disgrifyddion SAC i helpu athrawon dan hyfforddiant i ystyried addysgu mewn modd cyfannol.											
Rwy'n gallu gwrando, cwestiynu a herio eraill i adfyfrio yn feirniadol.											
Rwy'n gallu helpu eraill i fanteisio ar eu hysbrydoliaeth eu hunain drwy wrando'n weithredol neu ddefnyddio distawrwydd yn ôl yr angen.											
Rwy'n gallu egluro ffyrdd o feddwl a nodau eraill.											
Mae gennyf ddealltwriaeth dda o ymchwil yn yr ystafell ddosbarth ac rwy'n ymwneud ag ymchwil ac yn cynnal ymchwil.											
Rwy'n gyfarwydd â gofynion y brifysgol ac yn gallu helpu'r myfyrwyr i gysylltu theori ac ymarfer.											
Rwy'n rhoi adborth ysgrifenedig ac ar lafar sy'n gywir ac yn deg ac sy'n helpu athrawon dan hyfforddiant i ystyried eu cynnydd mewn modd cyfannol.											

Mae gennyf sgiliau TG da ac rwy'n teimlo'n hyderus yn defnyddio llwyfan ar-lein i fanteisio ar hyfforddiant, deunyddiau rhaglenni a chwblhau dogfennau ar-lein											
Rwy'n cymryd fy natblygiad proffesiynol o ddifrif ac rwy'n gosod esiampyl dda i eraill.											
Rwy'n amrywio fy null o goetsio i ddiwallu anghenion y sawl sy'n cael ei goetsio.											
Rwy'n datblygu fy sgiliau ymchwil fy hun er mwyn archwilio'r cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer.											
Rwy'n gallu creu awyrgylch lle mae eraill yn hyderus i gymryd risgiau ac arbrofi wrth ymarfer.											
Mae gennyf sgiliau rhyngpersonol ardderchog, ac rwy'n gallu rhoi adborth adeiladol a rheoli cydberthnasau heriol.											
Rwy'n gallu cyfeirio eraill at adnoddau i gefnogi eu dysgu.											

3.2 Hyfforddiant

Mae modd cael mynediad am ddim i'r cyrsiau canlynol ar lwyfannau OpenLearn ac OpenLearn Create. Gall y rhai sy'n cwblhau'r cyrsiau hyn gael 'datganiad cyfranogi'.

Archwilio mentora a hyfforddi gyrfa

Mae'r cwrs hwn yn egluro beth mae mentoriaid a hyfforddwyr gyrfa yn ei wneud, ac yn archwilio sgiliau pwysig – megis gofyn y cwestiynau cywir a herio rhagdybiaethau – y gellir eu defnyddio mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau er mwyn dod o hyd i atebion effeithiol. Gellir ei gyrchu drwy'r ddolen isod.

OpenLearn: [Exploring career mentoring and coaching](#)

Meddylfryd mentora

Bydd y cwrs rhad ac am ddim hwn, Meddylfryd mentora, yn cefnogi unrhyw un sydd wedi'i leoli mewn lleoliad addysgol i ddatblygu dealltwriaeth o fentora athrawon newydd yn effeithiol yng nghyfnodau addysg athrawon gychwynnol a newydd gymhwyso.

Ar ôl astudio'r cwrs hwn, dylech chi allu:

- deall egwyddorion mentora effeithiol ym maes addysg gychwynnol athrawon a rôl y Mentor fel addysgwr athrawon mewn cyd-destun ysgol;
- deall bod mentora yn continwwm sydd hefyd yn cynnwys hyfforddi;
- cymhwyso damcaniaethau mentora a hyfforddi wrth ymarfer fel athro ac wrth gefnogi athrawon newydd;

- deall mentora fel cyfle dysgu proffesiynol ar gyfer datblygu sgiliau personol ym maes addysgu ac arwain.

Gellir cyrchu'r cwrs gan ddefnyddio'r ddolen hon:

[A mentoring mindset \(Meddylfryd mentora\) - OpenLearn - Open University](#)

Dysgu sut i addysgu: cyflwyniad i ymchwil yn yr ystafell ddosbarth.

Ar ôl astudio'r cwrs hwn, dylech chi allu:

- Gwybod sut i fynd ati i gynllunio darn o ymchwil;
- Deall dwy fethodoleg benodol: astudiaeth achos ac ymchwil gweithredu;
- Deall rhai o'r materion sy'n ymwneud â chasglu a dadansoddi data;
- Ystyried y ffordd orau o ledaenu eich gwaith.

Gellir cyrchu'r cwrs gan ddefnyddio'r ddolen hon: [Start of Box](#)

OpenLearn: [Learning to teach: an introduction to classroom research](#)

Hyfforddi eraill i hyfforddi

Mae hwn yn gwrs sydd wedi'i neilltuo i ddatblygu'r bobl sy'n datblygu'r hyfforddwyr. Byddwch yn ymdrin â phynciau sy'n archwilio:

- Sut mae hyfforddwyr yn dysgu;
- Pam ei bod hi'n bwysig meithrin perthnasoedd effeithiol;
- Sut i ofyn cwestiynau da a gwrando'n weithredol;
- Sut gall eich statws ddylanwadu ar y broses ddysgu;

- Y sgil o arsylwi a rhoi adborth i hyfforddwyr.

Gellir cyrchu'r cwrs gan ddefnyddio'r ddolen hon:

OpenLearn: [Coaching others to coach](#)